

**Cymru  
Wrth-hiliol**



**An Anti-Racist  
Wales**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymru Wrth-hiliol

---

Cynllun Gweithredu  
Cydraddoldeb Hiliol i Gymru

**Asesiad Effaith Integredig**

**Teitl y cynnig:**

Y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

**Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):**

April-Louise Pennant

Hannah Fisher

Meinir Collyer

**Adran:**

Cydraddoldebau

**Pennaeth yr Is-adran/yr Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):**

Alyson Francis

Uwch Swyddog Cyfrifol Claire Bennett

**Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:**

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS

**Dyddiad dechrau:**

11 Tachwedd 2020

# Adran 1

## Pa Gamau Gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Nid yw cydraddoldeb hiliol wedi'i gyflawni eto yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag ystod ehangach o randdeiliaid, wedi datblygu Cynllun Gweithredu i nodi'r camau pendant y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anoddefgarwch hiliol, ethnig a chrefyddol sy'n systemig ac yn sefydliadol, er mwyn sicrhau newid gwirioneddol dros y 10 mlynedd nesaf i greu Cymru sy'n wrth-hiliol.

Byddai methu â mynd i'r afael â hiliaeth yn fygythiad i'r posibilrwydd o weld cenedlaethau'r dyfodol yn byw mewn Cymru amrywiol, ddiogel a chydlynus. Yn ogystal, wrth i Black Lives Matter ddod yn ôl i amlygrwydd ar ôl llofruddiaeth gyhoeddus George Floyd ar 25 Mai 2020, ac yn sgil effaith andwyol COVID-19 ar gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, daeth galwadau pellach i fynd i'r afael â hiliaeth systemig yng Nghymru ar fyrder<sup>1</sup>.

Bydd y Cynllun yn ddogfen hybrid sy'n dwyn ynghyd elfennau o strategaeth a chynllun gweithredu a fframwaith llywodraethu cadarn i sicrhau atebolrwydd parhaus.

### Cefndir

Ymrwymodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru ym mis Mawrth 2020, yn dilyn galwadau gan y sector hil ac adborth a ddarparwyd drwy ymgynghoriad blaenorol ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru<sup>2</sup>, a gynhaliwyd ddiwedd 2019. Roedd yr adborth hwn yn cynnwys teimlad bod troseddau casineb a digwyddiadau casineb wedi cynyddu ers ymadael â'r UE.

Dangosodd effaith anghymesur Covid-19 a'r argymhellion a wnaed gan Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Grŵp Cynghorol Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y Prif Weinidog<sup>3</sup>, a ysgrifennwyd gan yr Athro Ogbonna, yr angen dybryd am ddatblygu'r Cynllun. Daeth mwy o bwysau wrth i Black Lives Matter godi i amlygrwydd eto ledled y byd ar ôl i George Floyd gael ei ladd gan un o swyddogion yr heddlu ar 25 Mai 2020<sup>4</sup>. Dechreuodd y gwaith datblygu ar y Cynllun ym mis Mehefin 2020.

1 Erthygl Wales Online, 2020, The things that need to happen in Wales after the Black Lives Matter protests, Cyrchwyd 2 Mawrth 2021 [www.walesonline.co.uk/news/wales-news/black-lives-matter-george-floyd-18536679](http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/black-lives-matter-george-floyd-18536679)

2 Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Ymgynghoriad ar Amcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Consultation 2019, Cyrchwyd 3 Mawrth 2021 [www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-ymgynghoriad-ar-amcanion-cynllun-cydraddoldeb-strategol-2020-2024](http://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-ymgynghoriad-ar-amcanion-cynllun-cydraddoldeb-strategol-2020-2024)

3 Adroddiad Is-Grŵp Economaidd-Gymdeithasol Grŵp Cynghorol Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y Prif Weinidog ar Covid-19 Cyrchwyd Mawrth 2021 [www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/grp-cynghorol-bame-y-prif-weinidog-ar-covid-19-adroddiad-yr-is-grp-economaidd-gymdeithasol.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-06/grp-cynghorol-bame-y-prif-weinidog-ar-covid-19-adroddiad-yr-is-grp-economaidd-gymdeithasol.pdf)

4 Erthygl Wales Online, 2020, The things that need to happen in Wales after the Black Lives Matter protests, Cyrchwyd 2 Mawrth 2021 [www.walesonline.co.uk/news/wales-news/black-lives-matter-george-floyd-18536679](http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/black-lives-matter-george-floyd-18536679)

Mae gwaith Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Grŵp Cynghorol Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol y Prif Weinidog ar Covid-19 a gwaith y Grŵp Asesu Risg Covid -19 yn sylfaen bwysig i'r Cynllun. Cafodd llawer o'r argymhellion tymor byr, uniongyrchol a wnaed yn yr adroddiad eu datblygu ar adeg ei gyhoeddi, ond bydd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru yn gyfrwng i fwrw ymlaen â'r argymhellion tymor canolig i hirdymor a wnaed gan yr adroddiad.

Yn yr un modd, bydd argymhellion y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd<sup>5</sup>; a Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru<sup>6</sup> yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

Mae'r Cynllun hwn yn cyd-fynd â'r themâu a'r blaenoriaethau a amlinellir yn 'Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol' megis ei nod o adeiladu Cymru 'unedig a chysylltiedig'<sup>7</sup>. Mae'r Cynllun yn berthnasol iawn i'r nod o Gymru 'fwy cyfartal' gyda 'chymunedau cydynus' fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>8</sup> a bydd ei weithredoedd yn sail i gyflawni nodau eraill hefyd. Yn ogystal, mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn helpu i gyflawni rhai o amcanion 'Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024'<sup>9</sup> gan gynnwys 'atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru'. Mae hefyd yn ategu nod y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol<sup>10</sup> a ddaw i rym yn 2021 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is<sup>11</sup>.

Cyd-awduro fydd yr egwyddor sylfaenol wrth ddatblygu'r cynllun. Byddwn yn ymgysylltu â phobl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ddatblygu amcanion a chymunedau gweithredu cyffredin, ac fe fyddwn yn gweithio i gysylltu ag ystod ehangach o bobl, yn ogystal â chynyddu gwerth y rhwydweithiau rydym eisoes wedi cysylltu â nhw. Bydd un ar ddeg o feysydd polisi wedi'u cynnwys yn y Cynllun: Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Addysg; Incwm a Chyflogaeth; Tai a Llety; Troseddau Casineb a Chyfiawnder; Diwylliant, y Celfyddydau, Treftadaeth a Chwaraeon; Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth; Llywodraeth Leol; yr Amgylchedd; y Gymraeg; Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg, yn ogystal â materion trawsbynciol. O fewn y meysydd polisi hyn, bydd swyddogion yn ymrwymo i 3-5 o nodau a chymunedau gweithredu lefel uchel gydag effeithiau a chanlyniadau penodol.

Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori erbyn diwedd mis Mawrth 2021.

5 Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd, 2020, Cyrchwyd 2 Mawrth 2021 [www.llyw.cymru/cwricwlwm-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y](http://www.llyw.cymru/cwricwlwm-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiadd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y)

6 Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru, 2020, Cyrchwyd 20 Rhagfyr 2020 [www.llyw.cymru/y-fasnach-mewn-caethweision-ar-ymerodraeth-brydeinig-archwiliad-o-goffau-yng-nghymru-grwp-gorchwyl/cylch-gorchwyl](http://www.llyw.cymru/y-fasnach-mewn-caethweision-ar-ymerodraeth-brydeinig-archwiliad-o-goffau-yng-nghymru-grwp-gorchwyl/cylch-gorchwyl)

7 Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, 2017, Cyrchwyd 19 Ionawr 2021 [www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf)

8 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cyrchwyd 20 Tachwedd 2021 <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf>

9 Cynllun Cydraddoldeb Strategol, 2020-2024, Cyrchwyd 19 Ionawr 2021 [www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chymunedau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf](http://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chymunedau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf)

10 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol: trosolwg, 2020, Cyrchwyd 19 Ionawr 2021 [www.llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg](http://www.llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-trosolwg)

11 Grwpiau economaidd-gymdeithasol yn ôl ethnigrwydd, 2018, Cyrchwyd 19 Ionawr 2021 [www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/population-by-ethnicity/demographics/socioeconomic-status/latest#ethnic-groups-by-socio-economic-status](http://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/population-by-ethnicity/demographics/socioeconomic-status/latest#ethnic-groups-by-socio-economic-status)

## Gweledigaeth

### Cymru sy'n wrth-hiliol



Ymhlith y prif themâu a ddaeth i'r amlwg, roedd gwrth-hiliaeth yn allweddol, ac felly yn greiddiol i'r gwaith hwn. Roedd themâu eraill yn cynnwys cysyniadau o degwch, cyfiawnder cymdeithasol a dathlu amrywiaeth o bob math.

Roedd y cyfranwyr o'r farn yr hoffent weld Cymru lle ceir "dealltwriaeth a rennir, a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt" er mwyn mynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol h.y. sut mae hiliaeth wedi bod yn rhan annatod o weithdrefnau sefydliadau y maent yn dod ar eu traws, ac yn parhau felly. Dylid anelu at "greu canlyniadau teg" sy'n "dathlu gwahaniaethau a thebygrwyddau ymhlith cymunedau ethnig lleiafrifol" lle y cawn "ein huno nid ein rhannu gan ein gwahaniaethau".

Roedd y cyfranwyr yn awyddus i weithio "gyda'n gilydd, fel pobl wyn a phobl ethnig leiafrifol, er mwyn creu Cymru wahanol a gwell ar y cyd".

## Diben

**Gwneud newid ystyrlon i fywydau cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth**




Ystyriwyd mai diben y gwaith hwn oedd creu "ymdeimlad o fyrder a newid diwylliannol sy'n golygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd" ac "sy'n rhoi'r camau gweithredu a addawyd ar waith" er mwyn lleihau anghydraddoldebau mewn amrywioi feysydd o fewn ein dyletswyddau a'n pweau.

Awgrymwyd bod angen i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus gael "sgyrsiau anodd heb ofni unrhyw ddial" er mwyn i ni allu cyflawni'r "newid rydym am ei weld". Roedd pobl yn teimlo mai dim ond drwy fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol, drwy "gyfleu'r gwir i'r rheini sydd mewn grym" a chreu "etifeddiaeth newydd ar gyfer gwrth-hiliaeth sy'n cynnwys canlyniadau teg i'n cymunedau" y gallwn wneud hyn.

Yn ogystal, roedd gobaith cryf y gallem greu "etifeddiaeth newydd o wasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys arweinwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd wedi cael cydnabyddiaeth am eu potensial, eu talent a'u cyfraniad unigryw".

## Gwerthoedd

Yn y gwerthoedd isod, mae "ni" yn cyfeirio at y cyfranogwyr a Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd



### 1 Profiadau bywyd Rydyn ni'n credu y dylid

"cynnwys" ein profiadau bywyd wrth wraidd pob penderfyniad a wneir yng Nghymru. Mae gennym yr hawl i "gael ein clywed ac i eistedd wrth y prif fwrdd" ac i glywed y penderfyniadau rydych yn eu gwneud amdanom.

**Rydyn ni'n credu** y dylai ein "heriau; o bob grŵp gwahanol, gael eu clywed fel ffordd o'ch helpu i wneud eich swyddi yn well" ac y dylid "cydnabod ein hanes a'n gorthrwm fwy" gan barchu "baich emosiynol rhannu" ar yr un pryd.

### 2 Seiliedig ar hawliau Rydyn ni'n credu ein bod yn

gofyn "am ddim ond ein hawliau, yn hytrach na ffafrau" ym mhob peth a wnewch. Mae cyfrifoldeb ar y rheini sydd mewn grym i "sicrhau cyfiawnder", i "orfodi" ac i sicrhau "atebolrwydd" y rheini sy'n gyfrifol am wasanaethau ac am wneud penderfyniadau.

**Rydyn ni'n credu** erbyn 2030 y dylai pawb gael eu hystyried yn "Gymry", ac "na ddylai hiliaeth, sy'n gadael trawma sy'n effeithio ar iechyd meddwl am flynyddoedd fod yn faich mwyach".

### 3 Yn agored ac yn dryloyw Rydyn ni'n credu "y gallwn

gyflawni mewn perthynas â chydraddoldeb". Ni ddylai fod "grwpiau poblogaidd" a "grwpiau amhoblogaidd", ond yn lle hynny, Cymru lle y caiff pobl eu gwerthfawrogi am eu talentau a'u profiadau bywyd unigryw sydd, er eu bod yn wahanol, yn gyfwerth â'i gilydd.

**Rydyn ni'n credu** "y bydd byw mewn man lle y ceir rhyddid i gynnal trafodaethau heriol heb ofni cael eich allgáu o ganlyniad i hiliaeth sefydliadol yn ein rhyddhau".

## Adran 7: Casgliad

Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

**Mae'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn nodi gweledigaeth, diben, gwerthoedd, nodau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol fel a ganlyn:**

**Gweledigaeth:** "Cymru sy'n wrth-hiliol erbyn 2030."

**Diben:** "Gwneud newidiadau ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth."

**Gwerthoedd:** "Bod yn agored ac yn dryloyw, canolbwyntio ar hawliau a chynnwys profiadau bywyd wrth ddatblygu polisi."

Bydd gweledigaeth, diben a gwerthoedd y Cynllun yn debygol o effeithio ar lawer o bobl ledled Cymru, yn enwedig y rheini sydd o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, drwy fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol. Yn ogystal, bydd y Cynllun yn perthyn i Lywodraeth Cymru gyfan ac yn cael ei weithredu'n rhagweithiol mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, ac yn canolbwyntio ar brofiadau ac arbenigedd cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun fu cydweithio a chyd-awduro rhwng Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Gwnaed hyn drwy ddigwyddiadau ymgysylltu cychwynnol gyda sefydliadau cydraddoldeb, arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch datblygiad y Cynllun ac roedd yn cynnwys llawer o'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y Cynllun hwn. Darparodd cyfranogwyr safbwyntiau a phrofiadau eang, gan gyngori ar yr hyn y gellir ei wneud i'w trin nhw (neu'r grwpiau a gynrychiolir gan eu sefydliadau) yn deg, a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu oherwydd hiliaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r dystiolaeth a'r

dadansoddiad o'r ymgysylltu cynnar hwn â rhanddeiliaid i lywio'r Cynllun.

Bydd yr ymgynghoriad arfaethedig o fis Mawrth yn llywio ymhellach y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus<sup>12</sup> (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010), ac yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'n saith nod llesiant drwy geisio mynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

## Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yw cyfle Llywodraeth Cymru i ailosod ein dull gweithredu, i wneud ymrwymiad clir i gymryd safiad gwrth-hiliol ac i ysgogi'r newid diwylliannol sydd ei angen wrth fabwysiadu'r safbwynt hwnnw. Bydd hyn yn helpu i barhau i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd hyn yn golygu mabwysiadu ymwybyddiaeth gyfunol ac ymwybodol o hiliaeth a gwneud ymrwymiad rhagweithiol i gymryd camau penodol mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth. Mae gan y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol y potensial i fod yn gatalydd ar gyfer newid a all ddechrau datgymalu hiliaeth strwythurol a systemig yng Nghymru; sy'n codi lleisiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac yn cael gwared ar unrhyw rwystrau y maent yn eu hwynebu. Bydd hyn yn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Effaith gadarnhaol fwyaf arwyddocaol y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yw bod Llywodraeth Cymru, wrth wneud yr ymrwymadau a amlinellir ynddi, yn cymryd y cam cyntaf tuag at y newid diwylliannol radical sydd ei angen i sicrhau cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Bydd angen i gamau ymarferol sylweddol ddilyn ond, ar y cyd, bydd y gwaith hwn yn ceisio rhoi terfyn ar yr anfantais y mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ei wynebu o'r crud i'r bedd. Yn benodol, nodwyd effeithiau ar gyfer y grwpiau canlynol:

### Plant a'u cynrychiolwyr;

Mae gwreiddiau anghydraddoldeb yn aml i'w canfod yn ystod plentyndod a bydd hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn gwella cyfleoedd bywyd plant heddiw ac yfory. Mae addysg yn faes polisi canolog o fewn y Cynllun ac mae rhai o'r nodau a'r camau gweithredu yn cynnwys adolygu polisiau gwahardd a bwlio ysgolion, cynyddu cynrychiolaeth Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gweithlu a chynyddu'r sylw at eu cyfraniadau yn y cwricwlwm. Bydd y nodau a'r camau gweithredu hyn, ynghyd ag eraill mewn gwahanol feysydd polisi oll o fudd uniongyrchol i bob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

### Pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddf cydraddoldeb 2010;

Bydd y Cynllun yn gynhwysol ac yn eang, gan gwmpasu materion sy'n effeithio ar bob grŵp, megis hiliaeth strwythurol a systemig, ond bydd hefyd yn mynd i'r afael â buddiannau cymunedau penodol a rhyngblethedd drwy roi sylw i faterion sy'n berthnasol i grwpiau penodol gan gynnwys menywod, pobl anabl, pobl ifanc, pobl hŷn, pobl LGBTQ+ a grwpiau crefyddol ac anghrefyddol. Ystyriwyd yr effeithiau'n fanylach yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a Chydraddoldeb.

### Siaradwyr cymraeg a grwpiau arbenigol cymraeg eu hiaith, a

Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, BSL ac ieithoedd cymunedol eraill. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio clywed barn siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol Cymraeg eu hiaith yn benodol, a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i'w gwahodd i ymgynghori â ni. Bydd eu mewnbwn yn cyfrannu at gamau gweithredu a nodau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Cynllun, er y bydd nodau a champau gweithredu ar draws y gwahanol feysydd polisi niferus yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg.



## **Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

### **> yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant,**

Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn hanfodol i greu Cymru fwy cyfartal, lle mae pawb yn cael cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu llawn botensial a chyfrannu'n llawn at yr economi. Bydd hyn yn galluogi Cymru i fod yn fwy llewyrchus ac arloesol. Bydd gwaith i ddatblygu'r Cynllun yn cael ei wneud yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum ffordd o weithio' yn adran 5 o Ddeddf 2015. Yn bwysicaf oll drwy gymryd rhan a chydweithredu; bydd profiad bywyd pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ganolog i gynnwys y Cynllun. Bydd y weledigaeth, y diben a'r gwerthoedd y cytunwyd amynt gyda rhanddeiliaid yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar y saith nod llesiant, gan helpu i greu Cymru iachach, fwy cyfartal a chyfrifol yn fyd-eang gyda chymunedau cydlynus, yn ogystal â sicrhau bod Cymru'n ffyniannus. Bydd hefyd yn cryfhau diwylliant fywiog Cymru a'r Gymraeg

### **> yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r effeithiau negyddol sydd wedi'u nodi o ganlyniad i'r Cynllun yn cynnwys rhai pobl yn teimlo ei bod yn annheg canolbwyntio ar hil. Fodd bynnag, mae'r strategaeth gyfathrebu sy'n ymwneud â'r Cynllun yn cael ei datblygu'n ofalus er mwyn osgoi, leihau neu liniaru'r effeithiau negyddol hyn.

## **Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Disgwylir i'r Cynllun gyflawni dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae'n ddogfen 'fyw' a fydd yn cyfrannu at benderfyniadau polisi a gweithredu. Bydd y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn cynnwys camau gweithredu a fydd yn eiddo i wahanol adrannau polisi ar draws Llywodraeth Cymru. Caiff y rhain eu monitro gan y swyddogion sy'n gweithio yn y meysydd polisi hynny, a fydd yn adrodd i Grŵp Atebolrwydd dan gadeiryddiaeth annibynnol. Bydd rôl hefyd i'r Uned Gwahaniaethu ar Sail Hil arfaethedig, sy'n cael ei chwmpasu ar hyn o bryd, y disgwylir iddi wella'r broses o gasglu a defnyddio data a thystiolaeth. Mae llawer o'r camau gweithredu yn y Cynllun hefyd yn ceisio gwella data a thystiolaeth er mwyn penderfynu a yw polisiau'n cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae cyd-awduro wedi bod yn egwyddor bwysig ar gyfer datblygu'r Cynllun a bydd cynnwys profiadau bywyd pobl yr un mor bwysig wrth ei weithredu. Bydd y trefniadau monitro a gwerthuso yn cael eu cadarnhau wrth i'r Cynllun gael ei gwblhau ar ôl yr ymgynghoriad.